

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Ystafelloedd Ymgynghori Spire Abergele

Dyddiad yr arolygiad: 18 Ebrill 2023

Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-397-4

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ystafelloedd Ymgynghori Spire Abergele ar 18 Ebrill 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Clinigol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan Ystafelloedd Ymgynghori Spire drefniadau ar waith i hybu diogelwch a llesiant y cleifion sy'n ymweld â'r clinig.

Rhoddodd y cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Gwelsom fod y staff yn y clinig yn trin y cleifion yn gwrtais ac â pharch. Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd trefniadau ar waith hefyd i gleifion fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff cleifion gynnig hebryngwr, hyd yn oed pan mae perthynas neu ffrind yn bresennol ac y gwneir cofnod o'r cynnig ac o ymateb y cleifion
- Ystyried ehangu'r dewis o wybodaeth sydd ar gael, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ansawdd yr amgylchedd
- Gwybodaeth i gleifion a chyfathrebu
- Cynnal preifatrwydd ac urddas

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau i hybu diogelwch a llesiant cleifion, ymwelwyr a'r staff.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio.

Roedd trefniadau da ar waith i reoli meddyginiaethau, ynghyd â phrosesau effeithiol ar gyfer gwirio'r cyfarpar a ddefnyddir.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y nodiadau clinigol wedi'u hysgrifennu â llaw a'r llofnodion yn ddarllenadwy.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr
- Hyfforddi staff
- Cadw cofnodion

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn y clinig, gyda'r staff yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan y rheolwr.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd roedd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser
- Sicrhau bod y staff yn cael gwybod am newidiadau a gaiff eu cyflwyno
- Ystyried ffyrdd mwy effeithiol o gyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a'r staff
- Sicrhau y caiff camau eu cymryd ar unwaith i wella'r gwasanaeth pan fo angen gwneud hynny.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trosolwg gan y rheolwyr
- Archwilio ac adrodd
- Cefnogaeth a goruchwyliaeth i'r staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Fel rhan o'r broses arolygu, defnyddiodd AGIC holiadur i gael barn y cleifion ar y gofal a ddarperir yn Ystafelloedd Ymgynghori Spire Abergele.

Cafwyd cyfanswm o 13 o ymatebion gan y cleifion. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Staff cyfeillgar iawn ac yn barod i helpu.”

“Staff cyfeillgar.”

Diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd taflenni am y gwasanaethau a gynigir yn y clinig ar gael yn yr ystafell aros. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gan y gwasanaeth hefyd wefan gynhwysfawr yn rhoi manylion am y gwasanaethau a gynigir yn y clinig a'r rheini a gynigir gan y sefydliad ar safleoedd eraill.

Urddas a pharch

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrandao arnynt. Gwnaeth y cleifion hefyd ddweud wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu eu gofal a'u triniaeth.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd parchus a phroffesiynol, a hynny wrth sgwrsio ar y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd ymgynghori a thrin wedi'u cau pan oeddent yn cael eu defnyddio. Defnyddiwyd llenni tafladwy o gwmpas y gwelyau archwilio er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau neu pan oeddent yn cael triniaeth.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am eu hawl i gael hebryngwr pan fyddent yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd. Defnyddir hebryngwyr er mwyn diogelu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf pan gaiff y claf ei archwilio gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Fodd

bynag, wrth i ni archwilio'r nodiadau meddygol, gwelsom nad oedd y cleifion yn cael cynnig hebryngwr bob amser ac nad oedd y staff wedi gwneud cofnod o'r adegau pan fu perthynas neu ffrind yn bresennol.

Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff cleifion gynnig hebryngwr, hyd yn oed pan fydd perthynas neu ffrind yn bresennol ac y gwneir cofnod o'r cynnig ac o ymateb y cleifion.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd cyfeillgar a chwrtais. Dywedodd y cleifion a wnaeth sylwadau wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais ac yn garedig wrth roi gofal a thriniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn Saesneg yn unig roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y taflenni ac ar y wefan. O ystyried bod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylid gwneud mwy o ymdrech i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

Roedd gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau eraill i'w gweld yn y clinig i'r cleifion a'r ymwelwyr gael gafael arni.

Dylai'r person cofrestredig ystyried ehangu'r dewis o wybodaeth sydd ar gael, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Roedd dolen glywed ar gael er mwyn helpu'r cleifion hynny sy'n drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â'r staff yn y clinig.

Gwelsom fod arwyddion addas a dwyieithog yn cael eu harddangos i gyfeirio'r cleifion at y rhannau gwahanol o'r clinig.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd rhywfaint o ddeunyddiau hybu iechyd ar gael.

Roedd y personau cofrestredig wedi llunio Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion yn unol â'r rheoliadau. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth am y clinig ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth. Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael hefyd ynghylch cael cydsyniad dilys y cleifion. Cadarnhaodd archwiliad o sampl o nodiadau'r cleifion fod clinigwyr yn gwneud cofnod yn y nodiadau meddygol pan roedd y cleifion yn cydsynio ar lafar i archwiliad neu driniaeth.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y gwahanol driniaethau oedd ar gael ac unrhyw risgiau cysylltiedig, a gwybodaeth am y costau dan sylw.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth wedi'u nodi'n glir yn y Datganiad o Ddiben.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau'r clinig gan eu Meddyg Teulu. Gallai'r cleifion atgyfeirio eu hunain ar gyfer rhai gwasanaethau. Disgrifiwyd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cynnal asesiadau o'r cleifion er mwyn nodi eu hanghenion unigol o ran gofal a thriniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod y clinig yn monitro'r achosion o hunanatgyfeiriadau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac nad oedd y cleifion yn cael eu gweld gan feddygon ymgynghorol nac yn cael eu trin yn ddiangen.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r Datganiad o Ddiben, y Canllaw i Gleifion a gwybodaeth ar wefan y clinig yn nodi'n glir bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan roi sylw dyledus i hawliau cleifion.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch gan staff y clinig, a'i fod yn teimlo eu bod yn gwrando arno. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn broffesiynol ac yn rhoi sylw i anghenion y claf.”

Roedd lleoedd parcio i bobl anabl ar gael gerllaw'r clinig a cheir mynediad gwastad, da i'r brif fynedfa. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiledau'r cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr gwaelod.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cyfle i gleifion roi sylwadau ar eu profiad o ymweld â'r clinig gyda holiaduron ar gael yn yr ardal aros er mwyn iddynt roi adborth yn barhaus. Cynhaliwyd arolygon boddhad yn fisol er mwyn ceisio barn y cleifion. Roedd yn amlwg bod y tîm o staff wedi ystyried y sylwadau a gafwyd gan gleifion a bod camau wedi'u cymryd o ganlyniad i wneud gwelliannau lle roedd hynny'n briodol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd hi'n ymddangos fel pe bai'r clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Gwelsom fod pob rhan o'r clinig yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd yr allanfeydd tân a'r llwybrau dianc wedi'u nodi'n glir. Gwelsom gofnodion yn dangos bod driliau tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd cyfarpar diogelwch tân a dyfeisiau trydanol cludadwy wedi'u harchwilio i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd asesiadau risg cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y clinig. Cytunodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod yr amgylchedd yn lân, a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith yno.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn helpu i lywio'r staff ar atal a rheoli heintiau ac roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant ddiweddaraf ar hyn.

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael.

Roedd rhai o'r clinigwyr sy'n defnyddio'r clinig yn cynnal mân driniaethau llawfeddygol. Roedd yr offerynnau a ddefnyddiwyd yn ystod y triniaethau llawfeddygol hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer un claf yn unig. Gwelsom fod offer miniog (fel nodwyddau) wedi'u rhoi mewn cynwysyddion priodol i'w gwaredu'n ddiogel.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i lywio'r staff ar y camau i'w cymryd pe byddent yn amau bod plant neu oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd a thimau diogelu'r awdurdod lleol. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel a oedd yn briodol i'w rolau. Roedd nysr

arwain ar gyfer diogelu yn cael ei chyflogi er mwyn goruchwyllo hyfforddiant y staff ac i reoli atgyfeiriadau.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o offer ar gael yn y clinig i gefnogi'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar hwn yn cael ei brofi/calibradu yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn rhoi mesuriadau cywir.

Roedd cyfarpar a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, er enghraifft llewygu, ar gael ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant dadebru addas.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrso, y staff meddygol a'r staff therapi.

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r ffordd roedd y clinig yn cael ei weithredu. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r clinig yn ymarfer yn unol â chanllawiau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol y cleifion a gwelsom eu bod yn drefnus ac yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd y cofnodion a welwyd yn cynnwys manylion am y clinigydd a oedd yn creu'r cofnod ynghyd â digon o fanylion am y canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddir i bob claf. Fodd bynnag, nid oedd y nodiadau ysgrifenedig yn hawdd i'w darllen bob amser, ac roedd llofnod y clinigydd naill ai ddim ar gael neu ddim yn glir.

Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y nodiadau clinigol wedi'u hysgrifennu â llaw a'r llofnodion yn ddarllenadwy.

Rheoli cofnodion

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Canfuwyd gennym fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel, a hynny yn electronig ac ar bapur.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar reoli'r meddyginiaethau a ddefnyddir yn y clinig.

Roedd un o'r nyrsys yn gyfrifol am reoli meddyginiaethau. Roedd hyn yn cynnwys goruchwyllo'r gwaith o archebu meddyginiaethau, eu caffael, eu storio'n ddiogel a'u gwaredu. Gellid cysylltu â fferylllydd o Ysbyty Spire Iâl yn Wrecsam er mwyn rhoi arweiniad a chymorth i'r staff yn ôl yr angen hefyd.

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel dan glo yn y clinig. Cadwyd cofnodion o'r meddyginiaethau a roddwyd i'r cleifion. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod y cleifion wedi cael eu holi ynghylch unrhyw alergeddau hysbys er mwyn hybu eu diogelwch a'u llesiant cyn i feddyginiaeth gael ei rhagnodi/rhoi fel rhan o'r gofal a'r driniaeth a gânt.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli cadarn ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod pwyslais ar wella gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy ei rhaglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o'r staff i gwrdd yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â gofal y cleifion.

Fel rhan o'r broses arolygu, defnyddiodd AGIC holiadur i gael barn y staff ar ansawdd y gwasanaeth a gynigir yn y clinig. Cawsom saith o holiaduron wedi'u cwblhau.

Dyweddodd y staff wrthym fod prosesau da, anffurfiol ar waith i oruchwyllo a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd a'u bod yn teimlo bod eu rheolwr a'u cydweithwyr yn eu cefnogi yn eu gwaith. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae rheolwr y clinig yn wych am fy nghefnogi, ac yn gwneud i mi deimlo fel fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi a fy nghlywed hefyd.”

Dyweddodd pedwar o'r saith aelod o staff a gwblhaodd holiadur wrthym nad oedd digon o staff ar ddyletswydd bob amser i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, a dywedodd un ymatebydd wrthym nad oedd yn cael ei gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am newidiadau sy'n effeithio ar ei faes gwaith.

Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ystyried sylwadau gan y staff a sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser.

Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ystyried sylwadau gan y staff a sicrhau bod y staff yn cael gwybod pan gaiff newidiadau eu cyflwyno.

Gwelsom fod cysylltiadau da gyda rheolwyr eraill yn Ysbyty Spire Iâl yn Wrecsam, gyda chynadleddau yn cael eu cynnal dros y ffôn bob bore er mwyn rhannu gwybodaeth am unrhyw faterion a oedd yn codi a rhybuddion diogelwch ac ati. Yna, roedd y wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu i bob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y clinig drwy gyfarfod sgrym. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn galluogi'r broses o ddyrannu a chynllunio gwaith.

Dyweddwyd wrthym fod aelodau o uwch dîm rheoli Spire yn ymweld â'r clinig yn rheolaidd fel rhan o'u cyfrifoldebau llywodraethu. Mae aelodau o dîm adolygu clinigol y sefydliad yn ymweld â'r clinig yn rheolaidd, ac mae Cyfarwyddwr yr Is-

adran yn ymweld â'r clinig bob mis. Cyflwynwyd adroddiadau archwilio misol i fwrdd rheoli'r clinig.

Dywedodd y staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gweithio'n dda fel tîm a bod y dulliau cyfathrebu ymysg y staff yn dda. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Gwaith tîm a chyfathrebu da.”

Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym nad oedd y cyfathrebu rhwng yr uwch-dîm rheoli a'r staff yn effeithiol bob amser.

Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ystyried sylwadau gan y staff a'r ffyrdd mwy effeithiol o gyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a'r staff.

Roedd cofnodion yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol neu ei gynrychiolydd enwebedig yn ymweld â'r clinig bob chwe mis o leiaf, yn unol â'r rheoliadau. Diben yr ymweliadau hyn yw ystyried y gwahanol agweddau sy'n ymwneud ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Roeddem yn fodlon ar lefel yr oruchwyliaeth o'r gwasanaeth gan aelodau'r uwch dîm rheoli a'r bwrdd.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwynion ysgrifenedig ar gael, ac roedd manylion am y ffordd y gallai cleifion wneud cwyn wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ddiben, ar y wefan ac ar ffurf taflen. Roedd y rhain yn nodi'r amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn glir. Yn unol â'r rheoliadau, roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys hefyd.

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer adolygu digwyddiadau sylweddol a rhannu gwersi o'r rhain er mwyn hybu diogelwch a llesiant cleifion. Rhoddwyd gwybod yn ffurfiol am ddigwyddiadau o bwys drwy system Datix. Fodd bynnag, dywedodd dau aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym nad oedd y sefydliad yn cymryd camau cyflym i wella'r gwasanaeth pan fo angen.

Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ystyried sylwadau gan y staff a sicrhau ei fod yn cymryd camau cyflym i wella'r gwasanaeth pan fo angen.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Darparwyd gwasanaethau meddygol/ymgyngori gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r clinig (a chanddynt freintiau ymarfer) nad oeddent wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y clinig. Roedd breintiau ymarfer yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd yn unol â'r hyn sy'n ofynnol.

Roedd y wybodaeth yn y ffeiliau staff a arolygwyd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o ran eu perfformiad yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd trefniadau cyfatebol ar waith rhwng y clinig a'r byrddau iechyd i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â goruchwyllo ac arfarnu meddygon ymgynghorol drwy Bwyllgor Cyngori Meddygol y clinig, sy'n goruchwyllo darpariaeth gwasanaethau meddygol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cedwid at arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y staff a gweld bod y clinig wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn y swydd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ystafelloedd Ymgynghori Spire Abergele

Dyddiad yr arolygiad: 18 Ebrill 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ystafelloedd Ymgynghori Spire Abergele

Dyddiad yr arolygiad: 18 Ebrill 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff cleifion gynnig hebryngwr, hyd yn oed pan fydd perthynas neu ffrind yn bresennol ac y gwneir cofnod o'r cynnig ac o ymateb y cleifion.	Rheoliad 18. (1) (a) a (b).	Atgoffwyd pob aelod o'r staff pan gaiff hebryngwr ei gynnig, y dylid gwneud cofnod o'r cynnig ac o ymateb y claf.	Rheolwr y Clinig a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	Wedi'i gwblhau
	Safon 10. Urddas a pharch	Bydd y staff yn cydgysylltu'n uniongyrchol â'r meddygon ymgynghorol ar ddechrau eu clinig er mwyn deall y gofynion o ran darparu hebryngwyr.		Wedi'i gwblhau
		Caiff y cynnig o hebryngwr ac ymateb y claf eu dogfennu yn nodiadau'r claf.		Wedi'i gwblhau
		Er mwyn helpu i wella'r ddogfennaeth, bydd y tîm yn		

		<p>cynnig dogfennaeth ar ffurf newydd a fydd yn cynnwys blwch mwy o faint ar gyfer y Dyddiad a'r Llofnod (mewn print du) a blwch wedi'i argraffu ymlaen llaw ar gyfer hebryngwyr ar y gwaelod - lle bydd angen ei lofnodi / cwblhau blychau ticio yn hytrach na defnyddio stamp.</p> <p>Bydd y tîm yn cynnal cynllun peilot o'r drefn newydd hon yng Nghlinig Chesney Court i ddechrau (gan fod clinig Abergele ar gau er mwyn cynnal gwaith adnewyddu) a bydd yn monitro cydymffurfiaeth gan ddefnyddio archwiliadau wythnosol ac yn rhannu'r canlyniadau â'r timau.</p>		<p>30/09/2023</p> <p>31/07/2023</p>
Dylai'r person cofrestredig ystyried ehangu'r dewis o wybodaeth sydd ar gael, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.	<p>Rheoliad 18. (1) (b)</p> <p>Safon 18. Cyfathrebu'n effeithiol</p>	Bydd y clinig yn ystyried pa wybodaeth ychwanegol y gellir ei harddangos mewn ieithoedd a fformatau eraill i'w hychwanegu at y wybodaeth sydd eisoes ar	Rheolwr y Clinig	31/07/2023

		gael i'r cleifion ac ymwelwyr ei gweld.		
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y nodiadau clinigol wedi'u hysgrifennu â llaw a'r llofnodion yn ddarllenadwy.	Rheoliad 23. Safon 20. Rheoli Cofnodion	Atgoffwyd y meddygon ymgynghorol o bwysigrwydd darllenadwyedd a llofnodion wrth ddogfennu fel rhan o nodiadau wedi'u hysgrifennu â llaw. Byddwn yn archwilio'r nodiadau clinigol bob wythnos ac yn rhoi adborth byw i'r meddyg ymgynghorol gan ymdrin ag unrhyw wybodaeth nad yw'n ddarllenadwy. Caiff unrhyw achosion parhaus o ddiffyg cydymffurfio eu huwchgyfeirio at y Rheolwr Cofrestredig i'w cynnwys wrth adolygu breintiau ymarfer â'r meddygon ymgynghorol.	Rheolwr Cofrestredig Rheolwr y Clinig Rheolwr y Clinig a'r Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau 23/07/2023 23/07/2023
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ystyried sylwadau gan y staff a sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser.	Rheoliad 20. (1) (a) Safon 25. Cynllunio'r	Cynhaliodd y tîm rheoli gyfarfod tîm ar ôl cael adroddiad drafft AGIC lle trafodwyd sylwadau'r staff â'r tîm sy'n gysylltiedig â rhoi	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	Wedi'i gwblhau

	<p>Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol</p>	<p>adborth er mwyn trafod sut i wella a gofyn am eu syniadau.</p> <p>Atgoffwyd y staff y dylid defnyddio'r adnodd staffio diogel dyddiol i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau gan ddefnyddio'r categori staffio baner goch ar Datix a'r Rhwydwaith Rhyddid i Leisio Barn os byddant am godi pryder.</p> <p>Bydd y clinig yn parhau i gynnal ymgyrchoedd recriwtio gweithredol er mwyn cynyddu nifer y staff clinigol a gwella gwydnwch y gweithlu.</p> <p>Bydd y tîm yn parhau i gwblhau'r adnodd staffio diogel dyddiol ac i uwchgyfeirio unrhyw amrywiadau o ran lefelau staffio.</p> <p>Caiff y lefelau staffio dyddiol ac unrhyw amrywiadau eu cyflwyno yn ystod sgrym diogelwch ddyddiol y tîm amlddisgyblaethol ac i'r tîm ehangach.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr y Clinig</p> <p>Rheolwr y Clinig</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>30/09/2023</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
--	--	--	--	---

		Bydd y clinig yn cynyddu amllder sgrym ddyddiol y clinig i ddwywaith y dydd a chaiff lefelau staffio diogel eu trafod bob tro.	Rheolwr y Clinig	30/07/2023
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ystyried sylwadau gan y staff a sicrhau bod y staff yn cael gwybod pan gaiff newidiadau eu cyflwyno.	Rheoliad 18. Safon 18. Cyfathrebu'n Effeithiol	Cynhaliodd y tîm rheoli gyfarfod tîm ar ôl cael adroddiad drafft AGIC lle trafodwyd sylwadau'r staff â'r tîm sy'n gysylltiedig â rhoi adborth er mwyn trafod sut i wella a gofyn am eu syniadau.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	Wedi'i gwblhau
		Bydd y clinig yn parhau i gynnal cyfarfodydd a sgrymiau adrannol misol. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu cynnwys fel eitem ar yr agenda a chaiff barn aelodau'r staff ei chofnodi.	Rheolwr y Clinig	30/08/2023
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ystyried sylwadau gan y staff a ffyrdd mwy effeithiol o gyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a'r staff.		Cynhaliodd y tîm rheoli gyfarfod tîm ar ôl cael adroddiad drafft AGIC lle trafodwyd sylwadau'r staff â'r tîm sy'n gysylltiedig â rhoi adborth er mwyn trafod sut i wella a gofyn am eu syniadau.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	Wedi'i gwblhau

		<p>Byddwn yn sicrhau bod aelodau'r Uwch-dîm Rheoli yn ymweld â'r clinig yn rheolaidd er mwyn cael eu gweld yn amlach ac y byddant yn siarad â'r staff sydd ar ddyletswydd yn ystod eu hymweliad.</p> <p>Byddwn yn datblygu cylchlythyr/bwletin staff er mwyn cyfathrebu'n well.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>30/09/2023</p> <p>30/09/2023</p>
<p>Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ystyried sylwadau gan y staff a sicrhau ei fod yn cymryd camau cyflym i wella'r gwasanaeth pan fo angen.</p>	<p>Rheoliad 19. (2) (e)</p> <p>Safon 6. Cymryd rhan mewn Gweithgareddau Gwella Ansawdd</p>	<p>Cynhaliodd y tîm rheoli gyfarfod tîm ar ôl cael adroddiad drafft AGIC lle trafodwyd sylwadau'r staff â'r tîm sy'n gysylltiedig â rhoi adborth er mwyn trafod sut i wella a gofyn am eu syniadau. Yn ystod y cyfarfod, nodwyd bod yr adborth hwn yn ymwneud â'r system cofnodi digwyddiadau a ddefnyddir yn y clinig.</p> <p>Byddwn yn parhau i drafod digwyddiadau a godwyd yn ystod y 24 awr blaenorol yn sgrym diogelwch ddyddiol yr ysbyty sy'n cynnwys y digwyddiadau hynny y</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>30/08/2023</p>

		<p>rhoddwyd gwybod amdanynt yn y clinig.</p> <p>Byddwn yn cyfarfod â'r staff i esbonio'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'r system cofnodi digwyddiadau ac i reoli'r disgwyliadau hynny, ac i roi sicrwydd bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd drwy'r gwersi a ddysgwyd a dogfennau adborth.</p>	Rheolwr y Clinig	30/08/2023
--	--	---	------------------	------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sue Jones

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2023